OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 787

## Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007

**Esemptiadau i fangreoedd di-fwg**

**3.**—(1) Nid yw annedd breifat yn ddi-fwg ac eithrio unrhyw ran ohoni—

(a) a rennir gyda mangre arall (gan gynnwys unrhyw annedd breifat arall) neu

(b) a ddefnyddir yn unig fel lle gwaith heblaw gwaith sy'n cael ei eithrio gan baragraffau (2) neu (3).

(2) Mae gwaith a gaiff ei wneud mewn rhan o annedd a ddefnyddir yn unig fel lle gwaith yn cael ei eithrio o baragraff (1)(b) os nad oes neb (heblaw person sy'n byw yn yr annedd) yn gweithio yn y rhan honno neu'n cael ei wahodd i ddod i'r rhan honno mewn cysylltiad â'r gwaith.

(3) Eithrir o baragraff (1)(b) bob gwaith a gaiff ei wneud yn unig—

(i) er mwyn darparu gofal personol neu ofal iechyd i berson sy'n byw yn yr annedd;

(ii) er mwyn cynorthwyo gyda gwaith domestig yr aelwyd yn yr annedd;

(iii) er mwyn cynnal strwythur neu adeiladwaith yr annedd;

(iv) er mwyn gosod, arolygu, cynnal neu symud unrhyw wasanaeth a ddarperir i'r annedd er budd y personau sy'n byw ynddi.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraffau (5) a (6) nid yw'r disgrifiadau canlynol o fangreoedd yn rhai di-fwg —

(a) ystafelloedd dynodedig i'w defnyddio gan y rhai sy'n 18 oed neu drosodd —

(i) mewn cartref gofal;

(ii) mewn hosbis i oedolion;

(iii) mewn uned iechyd meddwl sy'n darparu llety preswyl ar gyfer cleifion;

(b) ystafelloedd dynodedig mewn cyfleuster ymchwil neu gyfleuster cynnal profion;

(c) ystafelloedd gwely dynodedig mewn gwesty, gwesty bach, tafarn, hostel neu glwb aelodau.

(5) At ddibenion paragraff (4) ystyr "ystafell ddynodedig" neu "ystafell wely ddynodedig" yn ôl y digwydd, yw ystafell —

(a) a gafodd ei dynodi gan y person sydd â gofal y sefydliad o dan sylw yn ystafell lle y caniateir ysmygu;

(b) y mae ganddi nenfwd ac sydd, heblaw am ddrysau a ffenestri, yn hollol gaeedig ar bob ochr gan waliau solet o'r llawr i'r nenfwd;

(c) nad oes ganddi system awyru sy'n awyru i ran arall o'r fangre (ac eithrio unrhyw ystafelloedd dynodedig neu ystafelloedd gwely dynodedig eraill, yn ôl y digwydd);

(ch) nad oes ganddi unrhyw ddrws sy'n agor i fangre ddi-fwg ac nad yw'n cau'n fecanyddol yn union ar ôl ei ddefnyddio; a

(d) sydd wedi'i marcio'n glir yn ystafell lle y caniateir ysmygu.

(6) Nid yw ystafell ddynodedig mewn cyfleuster ymchwil neu gyfleuster gynnal profion yn ystafell ddi-fwg pan fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer unrhyw ymchwil neu ar gyfer cynnal profion sy'n ymwneud â—

(i) mwg a ollyngir o dybaco a chynhyrchion eraill a ddefnyddir ar gyfer ysmygu;

(ii) datblygu cynhyrchion ar gyfer ysmygu gyda llai o berygl o ran tân neu â chynnal profion tân ar ddeunyddiau sy'n ymwneud â chynhyrchion ar gyfer ysmygu;

(iii) datblygu cynhyrchion ysmygu neu fferyllol a allai olygu gweithgynhyrchu cynhyrchion llai peryglus ar gyfer ysmygu; neu

(iv) rhaglenni rhoi'r gorau i ysmygu.